

YMATEB I BRAWF TEYRNGARWCH CRISTIONOGOL

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli fod ein teyrngarwch Cristionogol yn cael ei herio bob dydd gan Satan a'i fyd. Mae'n rhaid inni gefnogi cyfundrefn Jehofah yn deyrngar heb rwgnach na baglu a bod yn ostyngedig a dysgu i'dio i gyfarwyddyd Jehofah

PRAWF YW CADW TEYRNGARWCH CRISTIONOGOL (8 mun.)

Mae teyrngarwch yn golygu glynu wrth ddeddf Duw ym mhob agwedd o'n bywyd (Darllen Effesiaid 4:20-24)

Mae person sy'n dysgu ffordd Crist yn cydnabod fod yn rhaid iddo newid ei holl bersonoliaeth (*w71 543-4; it-2 404; w86 7/1 20 ¶14*)

Mae hyn yn golygu datblygu meddylfryd cwbl wahanol, sy'n dod o 'adnewyddu ein meddwl'

Y canlyniad yw personoliaeth newydd yn cydymffurfio ag ewylllys Duw

Mae Satan â'i fryd ar dorri ein teyrngarwch

Mae wedi dyfeisio amryw "gynllwynion" i dorri teyrngarwch Cristionogol (Darllen Effesiaid 6:11, 12) (*w76 465-6; w88 9/1 13, 15-17*)

Mae *Kingdom Interlinear* yn cyfieithu'r Groeg am "gynllwynion" yn "weithredoedd cyfrwys"

Mae rhai o weithredoedd cyfrwys y Diafol yn ymosodiadau uniongyrchol: bygythiadau, gweithredoedd treisgar, a thactegau eraill i'n dychryn wedi'u cynllunio i'n gorchfygu ni a'n brawychu

Mae gweithredoedd cyfrwys eraill yn fwy craff: pethau sy'n apelio at chwantau naturiol a thueddfryd hunanol Bob dydd mae Cristionogion yn wynebu profion ar eu teyrngarwch

'Fydd y profion hyn ddim bob amser yn ymwneud â materion pwysig; golyga teyrngarwch Cristionogol "gyflawni pob peth" (Eff 6:13)

Golyga'r profion weithredu deddf Duw yn ein teulu, ystyried ei gyfundrefn â meddylfryd addas, a bod yn frwdfrydig wrth siarad ag eraill am fwriad Duw

Sut gallwn ddangos teyrngarwch ym mhob un o'r agweddau hyn o'n bywyd fel Cristionogion?

BYDDWCH YN DEYRNGAR O FEWN CYLCH Y TEULU (13 mun.)

Trefniant Duw ar y ddaear yw'r teulu (Eff 3:15; *it-1 807 ¶3; w62 352*)

Er mwyn bod yn deyrngar mae angen ufuddhau i gyngor Jehofah ar reoli cydberthynas teulu

Mae'r amgylchedd llwgr yn rhoi prawf ar deuluoedd Cristionogol

Mae adeiladwaith y teulu yn dadfeilio (*g91 9/22 3-5; g80 4/22 3-7; g82 8/8 3-4*)

Mae cynnydd uchel mewn troseddau ynghyd ag anniddigrwydd yn bodoli ymhlith yr ifanc (*w88 4/15 21; w89 10/15 29*)

Mae Satan yn hybu'r ysbryd annibyniaeth a hunanoldeb sy'n gyffredin oddi mewn i'r teulu

Mae Jehofah yn gofyn i'r wraig ymddarostwng (Darllen 1 Pedr 3:3-6) (*fl 55-6*)

Mae hyn yn weithredol hyd yn oed os yw'r gŵr yn anghredadun (1Pedr 3:1, 2; *bw 77-9; w89 5/15 17*)

Pa mor bell y dylid ymddarostwng? (Act 5:29; Eff 5:24)

Rhowch enghreifftiau sut gellir rhoi prawf ar deyrngarwch Cristionogol mewn tylwyth rhanedig

Dylai merched ifanc sydd â'u bryd ar briodi gydnabod beth fydd hyn yn ei olygu iddynt (Rhuf 7:2)

Mae Jehofah yn cyfarwyddo'r gŵr i 'roi'r parch dyladwy i'w wraig' (Darllen 1 Pedr 3:7) (*bw 90-2; fl 47-50; w89 5/15 14*)

Rhaid dod i adnabod y cyfyngiadau corfforol, emosiynol, ac eraill sydd arni (*fl 51-3; w89 5/15 13*)

Mae ei pharchu yn golygu cyfathrebu agored a rhydd

Rhowch ystyriaeth i'w dymuniadau mewn rhai pethau; gwnewch benderfyniadau yn ôl egwyddorion Ysgrythurol

Bydd esiamplau da rhieni yn dylanwadu ar y plant

Wrth i'r wraig fod yn ddarostyngedig bydd yn annog y plant i fod yn ufudd (Eff 6:1)

Mae'r ifanc yn fwy tebygol o 'anrhydeddu'u rhieni' pan fo'r tad yn 'parchu'i wraig' (Eff 6:2)

Bydd gan rieni "hyder mawr" i arwain eu plant pan fo'u hesiampl yn dda (1Tim 3:13)

CADW'N DEYRNGAR I GYFUNDREFN JEHOFAH (13 mun.)

Mae gan Jehofah yr hawl i ofyn am deyrngarwch oherwydd mai ef yw'r Creawdwr, y Brenin Goruchaf (Jer 10:10)

Er mwyn bod yn deyrngar i Dduw, rhaid bod yn deyrngar i'w gyfundrefn Ef (*w65 412; w88 3/15 18-19*)

Yn yr Ysgrythurau mae nifer o enghreifftiau o rai fu'n amlwg deyrngar i drefniant Duw

Ddwywaith, wrth gael ei erlid gan Saul, cafodd Dafydd gyfle i gymryd bywyd Saul, ond fe wrthododd

'Roedd estyn ei law yn erbyn eneiog Duw yn rhywbeth na ddaeth i'w feddwl (1Sam 24:1-7; 26:1-12, 23)

Pan drodd eraill a dramgwyddwyd gan yr hyn a ddysgai Iesu ymaith oddi wrtho a'i adael, arhosodd Pedr a'r apostolion eraill yn deyrngar (In 6:66-69)

Er i rai wyro oddi wrth y ffydd, bu'r apostolion a mwyafrif Cristionogion y ganrif gyntaf yn deyrngar i'r gynulleidfa Gristionogol (1Tim 1:19, 20; 2Tim 2:16-19)

Mae llawer o enghreifftiau o unigolion o'r oes fodern sydd wedi cadw teyrngarwch i Jehofah a'i gyfundrefn hyd yn oed dan amgylchiadau anodd (*w92* 4/15 26-30; *w80* 8/15 5-10; *w80* 4/15 6-15; *w79* 7/15 4-7; *yb74* 165-9, 182-90; *yb89* 111-12)

Byddwch yn deyrngar i Jehofah a'i gyfundrefn

Derbyniwch "fwyd . . . yn ei bryd" oddi wrth y "gwas ffyddlon a chall" (Mth 24:45-47)

Peidiwch â chael eich tramgwyddo gan esboniad a all fod yn anodd ei ddeall (Salm 119:165)

Cefnogwch benderfyniadau a gwaith corff yr henuriaid, a chydabod mai'r ysbryd sanctaidd sy'n gyfrifol am eu penodi, a chydabod hefyd eu bod hwythau'n amherffaith ac yn medru gwneud camgymeriadau (Act 20:28; Heb 13:7, 17; 1Pedr 4:8; *w89* 9/15 20-5; *w74* 153 ¶17, 413; *w70* 213; *w64* 464-70)

CADW TEYRNGARWCH WRTH GYFLAWN'I'N COMISIWN PREGETHU (8 mun.)

Dylid defnyddio bywyd y Cristion ar gyfer ewyllys Duw (1Pedr 4:1, 2)

Ewyllysia Duw "i bawb ddod i edifeirwch" (2Pedr 3:9)

Ystyrir y rhai sydd heb y gwirionedd yn 'feirw yn eu camweddau' (Eff 2:1; 1Pedr 4:6)

Mae pregethu'n fater bywyd a marwolaeth

Y daioni mwyaf y medrwn ei wneud i bobl yw eu gwneud nhw'n ymwybodol o'r newyddion da

Mae Satan yn ceisio'n llygad-dynnu ni oddi wrth y gwaith pregethu gyda'i "gynllwynion"

Mae e'n apelio at ein chwantau naturiol sy'n gysylltiedig â'r hen bersonoliaeth (Darllen 1 Pedr 4:3, 4) (*bw* 109-11; *w90* 8/15 17)

Er mwyn bod yn selog wrth bregethu, rhaid inni gadw darlun clir o'r sefyllfa fel mae (Darllen 1 Pedr 4:5, 6)

Mae'r amser i orffen y gwaith hwn bron ar ben (Darllen 1 Pedr 4:7)

SUT I YMATEB I BRAWF TEYRNGARWCH CRISTIONOGOL (3 mun.)

Mor bwysig 'nawr ydyw i astudio Gair Duw

Rhaid gwybod beth y mae Duw yn ei ofyn gennym ni

Ymostyngwch i gyfarwyddyd Duw bob amser (Darllen 1 Pedr 5:6, 7) (*bw* 136-7; *w82* 9/15 23-5)

Mynnwch gael ffydd y gŵyr Jehofah pryd i ddod â gollyngdod rhag pwysau Satan

Byddwch yn gwbl hyderus fod Jehofah yn gofalu amdanoch fel unigolyn

Dyfalbarhewch i weddio mewn modd sy'n adlewyrchu'r agwedd hon

Peidiwch â chael eich brawychu gan gynllwynion Satan (Darllen 1 Pedr 5:8)

'Fedr e ddim gorchfygu'r rhai mae Jehofah yn eu hamddiffyn (Eff 6:10-13)

Mae Jehofah yn rhoi cyfle i'r holl "frodyr yn y byd" brofi'u teyrngarwch yn unigol (Darllen 1 Pedr 5:9, 10)

Gallwch ddibynnu ar Jehofah i'ch cryfhau fel medrwech sicrhau buddion presennol a thragwyddol wrth i chi ymateb i'r prawf hwn

Ymddiriedwch ynddo ef i'ch nerthu chi i ymateb i'r prawf

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)